Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl383

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Cyllid ar gyfer Timoedd Troseddau Ieuenctid**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Ymhellach i benderfyniadau DLl222 a DLl254, mae'r Timoedd Troseddau Ieuenctid yn Nyfed-Powys wedi gofyn am gyllid ar gyfer y cyfnod 2025/26 i 2027/28.
Yn debyg i ddyfarniadau blaenorol, mae'r cais hwn yn ymwneud â chefnogi'r Timoedd Troseddau Ieuenctid yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys â gweithgarwch cyfiawnder adferol.

Bydd y Prosiect Dioddefwyr a Chyfiawnder Adferol Cyfiawnder Ieuenctid Rhanbarthol yn rhoi cymorth i ddioddefwyr ac yn caniatáu i'w lleisiau gael eu clywed yn ystod pob cam o'r System Cyfiawnder Ieuenctid.
Mae'r prosiect yn sicrhau y defnyddir ymagweddau adferol mewn ffordd a fyddai'n elwa'r plentyn, y dioddefydd a'r gymuned ehangach.
Mae Cyfiawnder Ieuenctid yn ymgysylltu â phartneriaid, gan gynnwys Heddlu Dyfed-Powys ac adrannau'r Awdurdod Lleol (cymorth i deuluoedd, gwasanaethau plant, gwasanaethau ieuenctid, adrannau addysg a phartneriaethau diogelwch cymunedol) fel rhan o gyflenwi gwasanaeth.

Mae'r gweithgaredd hwn yn cyd-fynd â thair blaenoriaeth y Cynllun Heddlu a Throseddu.

**Argymhelliad:**
Rhoi £165,000 yn ystod y flwyddyn gyntaf (2025/26) a £125,000 yn ystod yr ail flwyddyn a'r drydedd flwyddyn (2026/27 a 2027/28).
Ystyried ymgodi'r gyllideb ar gyfer yr ail flwyddyn a'r drydedd flwyddyn yn dilyn yr adolygiad o wariant yn ystod 2025/26.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 02/06/2025**